# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-28-09)

**Dyddiad: 25 Tachwedd 2009**
**Amser: 9.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC352 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 2 Rhagfyr 2009

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod onid yw'r swyddogaethau hynny i beidio â bod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (OS 2007/399 (Cy.45)) ("y Prif Reoliadau") yn pennu'r swyddogaethau hynny nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau.

SLC353 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 7 Rhagfyr 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("Rheoliadau 1989"). Mae'r Rheoliadau'n tynnu Guernsey a'i beilïaeth a Jersey i ffwrdd o Atodlen 2 i Reoliadau 1989. Ni fydd ymwelwyr o'r tiriogaethau hyn i Gymru bellach yn esempt o dan reoliadau 4 a 5 o Reoliadau 1989 rhag ffioedd am ofal iechyd a ddarperir o fewn y GIG.

**Caiff y Pwyllgor ei wahodd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37**

### Eitem 3: Rheoliadau sy'n deillio o Fesurau

SLC (3)-28-09(p1) - papur briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 4: Monitro casgliadau adroddiadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth - ymateb y Cwnsler Cyffredinol i lythyr y Cadeirydd

SLC (3)-28-09(p2) - Llythyr y Cadeirydd at Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ

SLC (3)-28-09(p3) - Ymateb y Cwnsler Cyffredinol

SLC (3)-28-09(p5) - Nodyn i'r Pwllgor

### Eitem 5: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar Fesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

SLC(3)-25-09(p1) - y Mesur arfaethedig

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7748-e.pdf

SLC(3)-25-09(p2) - Memorandwm Esboniadol

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7748-em-e.pdf

SLC(3)-28-09(p4) - Adroddiad drafft

### Eitem 6: Unrhyw fater arall

**Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf**